LIVING STREETS

DEWCH I NI GERDDED I'R YSGOL

# Llysgennad WOW Ffurflen Gais

CA1



## BETH YW LLYSGENNAD WOW?

**Hoffech chi helpu eich ffrindiau yn yr ysgol i ddod yn iachach, yn hapusach a gwneud mwy dros y blaned? Os felly, gallech chi ddod yn Llysgennad WOW!**

Mae Llysgenhadon WOW yn helpu i redeg WOW yn eu hysgol ac yn annog plant a'u teuluoedd i deithio i'r ysgol mewn ffordd lesol drwy gerdded/troelli, seiclo, sgwtera, neu barcio a cherdded.

Mae Llysgenhadon WOW hefyd yn helpu eu hathrawon drwy wneud swyddi i helpu i redeg WOW. Gall hyn olygu mynd o gwmpas dosbarthiadau yn atgoffa disgyblion i gofnodi ar Draciwr Teithio WOW neu ddosbarthu bathodynnau WOW ar ddiwedd bob mis.

**Mae Llysgennad WOW yn rhywun sydd:**

- Am helpu pawb yn ei ysgol i fod yn weithgar ac yn iach
- Yn fodlon gweithio'n galed i helpu'r amgylchedd
- Yn onest ac yn trin pawb yn deg



## FFURFLEN GAIS

**EICH ENW**

Enw ..........................................................

**EICH DOSBARTH**

Dosbarth ..........................................................

**DYWEDWCH WRTHYM PAM RYDYCH CHI'N MEDDWL Y BYDDECH CHI'N LLYSGENNAD WOW DA**

**Byddwn i'n Llysgennad WOW da oherwydd...**

**TICIWCH Y BLYCHAU OS YDYCH CHI'N UNRHYW UN O'R CANLYNOL, NEU WEDI BOD:**

- [ ] CYNRYCHIOLYDD CYNGOR YSGOL
- [ ] RHYFELWR ECO
- [ ] MONITOR CYFEILLGARWCH
- [ ] ARALL (NODWCH) Arall ..........................................................



## GWYBODAETH I RIENI/GOFALWYR



# MAE EICH PLENTYN WEDI'I WAHODD I WNEUD CAIS AR GYFER RÔL BWYSIG LLYSGENNAD WOW YN EI YSGOL.

Caiff WOW – yr her cerdded i'r ysgol ei rhedeg gan Living Streets, elusen y DU dros gerdded bob dydd. Rydyn ni'n gweithio gyda dros 1,500 o ysgolion a thua hanner miliwn o ddisgyblion bob blwyddyn i annog mwy o deithio llesol i'r ysgol.

Mae WOW yn fenter sy'n cael ei harwain gan ddisgyblion lle mae'r plant yn defnyddio dull hunanadrodd i nodi sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol bob dydd. Mae'r rhai hynny sy'n teithio mewn ffordd gynaliadwy (cerdded/troelli, seiclo, sgwtera neu barcio a cherdded) o leiaf unwaith yr wythnos am fis yn ennill bathodyn arbennig. Mae mor hawdd â hynny!

Oeddech chi'n gwybod bod y daith i'r ysgol ac oddi yno yn gyfrifol am hanner miliwn tunnell o allyriadau CO2 yn y DU yn flynyddol? Mae hynny'n fwy na rhai gwledydd bach! Mae cerdded i'r ysgol yn ffordd wych o helpu'r amgylchedd, ac mae hefyd yn helpu plant i deimlo'n hapusach ac yn iachach a chyrraedd yr ysgol wedi eu hadfywio ac yn barod i ddysgu.

Os yw eich plentyn yn llwyddiannus yn ei gais i ddod yn Llysgennad WOW Living Streets, bydd yn chwarae rôl allweddol wrth helpu'r ysgol i gyflwyno'r her ac annog eraill i deithio mewn ffordd fwy cynaliadwy.





**Os hoffech chi ddysgu mwy am WOW, ein mentrau cerdded i'r ysgol eraill a'n gwaith ehangach fel elusen, gallwch chi ymweld â'n gwefan a chofrestru ar gyfer ein e-newyddion.**



**LIVINGSTREETS.ORG.UK/WOWAMBASSADOR**

**Cymerwch ran ar y cyfryngau cymdeithasol: #LLYSGENNADWOW**

**X @LIVINGSTREETS   f LIVINGSTREETSUK   LIVINGSTREETS**

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif. 1108448 (Cymru a Lloger) a SC039808 (Yr Alban), Cwmni Cyfyngedig trwy Warant (Cymru a Lloger), Rhif Cofrestru Cwmni), 5368409.